**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**
**CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 TACHWEDD 2015 YN NHŶ HASTINGS.**

**Yn bresennol:** Mr. Owen Watkin (Cadeirydd); Mr. Ceri Stradling; Mr. David Powell; Mr. Theodore Joloza, a Mrs. Julie May

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr. Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr. Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr. David Carr (Rheolwr Cyllid); Mrs. Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr. Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr. Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mr. Tom Jenkins (Swyddog Arolygon) a Mr. Ralph Handscomb (Swyddog Arolygon); Miss Caroline Roe (Cynorthwyydd Swyddfa)

**Amser Dechrau:** 9:30
**Amser Gorffen:** 11:30

1. **Ymddiheuriadau:** Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2. **Datganiadau o Fuddiant**

   2.1. Mewn cysylltiad â'r drafodaeth ar Arolwg Cymunedol Caerdydd, datganodd Mr. Owen Watkin fuddiant fel perchennog tŷ yng Nghaerdydd, fodd bynnag, nid yw'r un o'r cynigion yn effeithio ar yr ardal lle mae'r anheddiad.

**3. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

   3.1. Cyhoeddodd y Cadeirydd fod disgwyl y byddai Bil Llywodraeth Leol (Cymru) yn derbyn Cydsyniad Brenhinol ar 25 Tachwedd.

   3.2. Adroddodd y Cadeirydd na fyddai'r Comisiwn yn cael Cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru hyd nes ar ôl etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016, a bod hyn wedi'i gadarnhau gan y Gweinidog.

**4. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2015**

   4.1. Penderfynwyd cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2015 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**5. Materion yn Codi**

   5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 6 Hydref gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

   5.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol, gan nodi'r materion i'w trafod nes ymlaen yn y cyfarfod hwn, a **nodwyd** hefyd y diweddariad o ran cynnydd ar y materion canlynol:

      5.2.a. (Mater 3) Pwerau i greu Gorchymyn Cymunedol– Bydd papur ar broses y Comisiwn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Rhagfyr. **Steve Halsall/ Matt Redmond**

      5.2.b. (Mater 6) Teithio a Chynhaliaeth – Mae cais am Ddyfynbris Cyflym wedi'i roi ar wefan Gwerthwch i Gymru ar gyfer Yswiriant Teithio i staff y Comisiwn tra byddant ar fusnes swyddogol. **Rachel Williams**

5.2.c. (Mater 20) Yr Arolwg Ordnans – Teithio a Chynhaliaeth i'w trefnu ar gyfer ymweliad y Comisiynwyr a Staff â Phencadlys yr Arolwg Ordnans. **Tom Jenkins**

6. **Cynllunio Arolygon Cychwynnol**

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 9 Tachwedd 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr. Rhoddodd yr Adroddiad gynllun wedi'i diweddaru i'r Comisiwn ei ystyried.

6.2. Gofynnodd y Comisiwn am i ddiagram llinell amser ar gyfer recriwtio a phenodi staff gael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Rhagfyr y Comisiwn er mwyn helpu i ddangos y cyfnodau allweddol i weithredu o ran staffio ar gyfer yr Arolygon Cychwynnol.

6.3. Gofynnodd y Comisiwn fod achos busnes yn cael ei baratoi ar gyfer trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, i gynnwys prynu darpariaethau TG ar gyfer unrhyw aelodau staff newydd a fyddai eu hangen yn ystod yr arolwg.

6.4. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn. **Gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr**

**7. Arolwg Cymunedol Caerdydd**

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 29 Hydref 2015 gan y Swyddog Arolygon, a oedd yn cynnwys y drafft cyntaf o'r Cynigion Terfynol ar gyfer yr Arolwg Cymunedol. Gwahoddwyd y Comisiwn i ystyried cyd-destun, ymresymu a thôn cynigion Arolwg Cymunedol Caerdydd.

7.2. Cytunwyd y newidiadau canlynol i'r drafft:-

7.2.a. **Cyncoed a Phentwyn** – ychwanegu: “Mae cynigion y Comisiwn ychydig yn wahanol i gynigion Cyngor Caerdydd oherwydd y nod o ddarparu ffin sy'n hawdd ei hadnabod” a gwybodaeth yn ymwneud â'r ffigur cronnus o'r holl newidiadau sy'n effeithio ar Gymunedau Cyncoed a Phentwyn.

7.2.b. **Llanisien a Chyncoed** – ychwanegu “Mae cynigion y Comisiwn ychydig yn wahanol i gynigion Cyngor Caerdydd oherwydd y nod o ddarparu ffin sy'n hawdd ei hadnabod” a gwybodaeth yn ymwneud â'r ffigur cronnus o'r holl newidiadau sy'n effeithio ar Gymunedau Cyncoed a Llanisien.

7.2.c. **Llanisien** – ychwanegu: gwybodaeth yn ymwneud â'r ffigur cronnus o'r holl newidiadau sy'n effeithio ar Gymuned Llanisien.

7.2.d. Llanrhymni a Rhymni – ychwanegu: gwybodaeth yn ymwneud â'r ffigur cronnus o'r holl newidiadau sy'n effeithio ar Gymuned Rhymni

7.2.e. **Pentwyn a Chyncoed** - ychwanegu “Mae cynigion y Comisiwn ychydig yn wahanol i gynigion Cyngor Caerdydd oherwydd y nod o ddarparu ffin sy'n hawdd ei hadnabod” a gwybodaeth yn ymwneud â'r ffigur cronnus o'r holl newidiadau sy'n effeithio ar Gymunedau Cyncoed a Phentwyn.

7.2.f. **Pentwyn** – ychwanegu: gwybodaeth yn ymwneud â'r ffigur cronnus o'r

holl newidiadau sy’n effeithio ar Gymunedau Pentwyn.

7.2.g. **Trowbridge a Rhymni** – ychwanegu: gwybodaeth yn ymwneud â’r ffigur cronnus o’r holl newidiadau sy’n effeithio ar Gymunedau Rhymni.

7.3. Penderfynwyd cytuno’r Adroddiad, yn amodol ar y trefniadau a nodwyd uchod.

7.4. Nodwyd y byddai’r Adroddiad yn destun y broses Sicrhau Ansawdd, yn barod i’w gyfieithu, ei argraffu a’i gyhoeddi. **Gweithredu: Swyddog Arolygon**

## 8. Arolwg Cymunedol Prestatyn

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 9 Tachwedd 2015 gan y Swyddog Arolygon.

8.2. Gwahoddwyd y Comisiwn i ystyried yr ymateb drafft i gynnig Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer y newid i’r ffin ac awgrym arall, a oedd i ddilyn ffiniau pendant yr eiddo.

8.3. **Nodwyd** yr Adroddiad gan y Comisiwn, yn amodol ar gadarnhau nifer yr eiddo yn yr ardal yr effeithir arni, ac, yn amodol ar fod yr addasiad i’r ffin yn foddhaol, **Penderfynwyd** cymeradwyo ymateb y Comisiwn i’r ymgynghoriad. **Gweithredu: Swyddog Arolygon**

## 9. Amrywiaeth y Bwrdd

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 3 Tachwedd 2015 gan y Prif Weithredwr.

9.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad gan y Prif Weithredwr yn ymwneud ag amrywiaeth y Bwrdd a Phenderfynodd gymeradwyo ymateb arfaethedig y Comisiwn i’r ymgynghoriad.

## 10. Rheoli Risg

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 5 Tachwedd 2015 gan y Rheolwr Cyllid.

10.2. **Cytunodd** y Comisiwn nad oedd angen gwneud unrhyw newidiadau pellach i’r gofrestr adeg y cyfarfod.

10.3. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

## 11. Adroddiad ar y Gyllideb

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 17 Tachwedd 2015 gan y Rheolwr Cyllid.

11.2. Tynnodd y Rheolwr Cyllid sylw at orwariant hyd at ddiwedd mis Hydref 2015 o fewn y dyraniadau cyllideb ar gyfer yr Ysgrifenyddiaeth, Teithio a Chynhaliaeth, Hyfforddiant Staff, Offer Cyfrifiadurol a Phapurau Newydd/ Cyhoeddiadau.

11.3. Roedd cyllid wedi'i ailddyrannu o'r Costau Staff yn cael eu Cyflogi'n Uniongyrchol, a oedd â thanwariant sylweddol ar gyfer y flwyddyn hyd yma, i wneud yn iawn am y gorwariant y soniwyd amdano uchod, gydag unrhyw orwario o ran yr Ysgrifenyddiaeth, Teithio a Chynhaliaeth a Hyfforddiant Staff yn cael ei ragweld er mwyn dychwelyd i sefyllfa o danwariant erbyn diwedd y flwyddyn.

11.4. **Derbyniwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

## 12. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 6 Tachwedd 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

12.2. **Penderfynwyd** nodi'r adroddiad ar statws presennol yr arolygon, ac i nodi diweddariadau ychwanegol ar y canlynol.

12.3. **Arolwg Cymunedol Caerdydd**: cytunwyd yr Adroddiad Cynigion Terfynol drafft, yn amodol ar fân ychwanegiadau, yn gynharach yng nghyfarfod y Comisiwn.

12.4. **Arolwg Cymunedol Castell-nedd Port Talbot**: Mae'r adroddiad cynigion drafft gyda'r argraffwyr i'w gyhoeddi.

12.5. **Arolwg Cymunedol Sir Gaerfyrddin**: Mae papur yn cael ei baratoi ar gyfer cyfarfod y Comisiwn ym mis Rhagfyr. **Cytunwyd** mai'r Comisiynydd Arweiniol ar gyfer yr arolwg hwn fydd Mr Theodore Joloza.

12.6. **Arolwg Cymunedol Sir Ddinbych**: Mae ymateb yn cael ei anfon at Gyngor Sir Ddinbych cyn 11 Rhagfyr 2015. **Cytunwyd** mai'r Comisiynydd arweiniol ar gyfer yr arolwg hwn fydd Mrs Julie May.

## 13. Enwau Wardiau Etholiadol Torfaen

13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 5 Tachwedd 2015 gan y Swyddog Arolygon.

13.2. **Cytunodd** y Comisiwn argymhellion yr adroddiad.

13.3. Mae'r Swyddog Arolygon i gyflwyno'r ymateb i Lywodraeth Cymru. **Gweithredu: Swyddog Arolygon**

## 14. Cynllunio'r Gweithlu a Symudedd Staff

14.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 9 Tachwedd 2015 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

14.2. **Nodwyd** yr Adroddiad a chytunwyd i anfon y llythyr ymateb arfaethedig at

Weinidogion Cymru. **Gweithredu: Rheolwr Cymorth Busnes.**

## 15. Calendr Digwyddiadau

15.1. **Nodwyd** y calendr**.**

## 16. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall

16.1. Ymddiheurodd Mrs Julie May am na fyddai'n gallu mynychu Cyfarfod y Comisiwn ym mis Rhagfyr.

## 17. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth 15 Rhagfyr 2015